

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)

Bil Caffael

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (RhS) 29.2. Mae RhS29 yn ei gwneud yn orfodol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y gellir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu at ddiben sy'n newid y cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Caffael ("y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022 a chynhaliwyd Ail Ddarlleniad Tŷ'r Arglwyddi ar 25 Mai. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 9 Mehefin.
3. Cyflwynodd Llywodraeth y DU 320 o welliannau ar 27 Mehefin i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi a ddechreuodd ar 4 Gorffennaf ac a fydd yn para tan 18 Gorffennaf. Mae'r rhan fwyaf o'r 320 o welliannau yn gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, fel y nodir ym mharagraff 14 isod.
4. Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd a'r gwelliannau cyhoeddedig perthnasol i'w gweld yn: [y Mesur Caffael - Biliau Seneddol - Senedd y DU](#). Mae'r holl welliannau a gyflwynwyd ar 27 Mehefin, gan gynnwys y gwelliannau a nodir yn y Memorandwm atodol hwn, i'w gweld yn: [2037 \(parliament.uk\)](#).

Amcanion y Polisi

5. Amcanion datganedig polisi Llywodraeth y DU yw:
 - cyflymu a symleiddio prosesau caffael cyhoeddus
 - sicrhau bod gwerth am arian yn ganolog i'r broses
 - creu mwy o gyfleoedd i fusnesau bach a mentrau cymdeithasol i arloesi ym maes darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Crynodeb o'r Bil

6. Noddir y Bil gan Swyddfa'r Cabinet (CO).
7. Diben y Bil yw cyflwyno deddfwriaeth ddiwygiedig ar gyfer y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n rheoli caffael cyhoeddus. Bydd yn diwygio'r gyfraith gaffael bresennol (gan gynnwys diddymu Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015) sy'n deillio o Gyfarwyddebau'r UE.

8. Mae'r Bil yn rhyngweithio â deddfwriaeth arall, sef y Bil Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) (Bil SPPP) a gyflwynwyd gerbron Senedd Cymru ar 7 Mehefin, a'r Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) a gyflwynwyd gerbron Senedd y DU (Tŷ'r Arglwyddi) ar 11 Mai. Rhagwelir y bydd y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd), os caiff ei basio, yn cael y Cydsyniad Brenhinol ddiwedd 2022/ddechrau 2023. Caiff y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) ei ddiddymu gan y Bil Caffael, felly hefyd y diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a wneir gan y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd).
9. Mae'r maes caffael yn eithaf cymhleth yn ei ymwneud â chyrff cyhoeddus. Felly, mae'r ddogfen hon yn defnyddio'r cyfeiriadau canlynol er sicrhau eglurder:
 - 'Awdurdodau Contractio' (ACau) - pob corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Bil
 - 'Awdurdodau Datganoledig Cymru' (ADCau) - fel y'u diffinnir gan adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("DLIC")
 - 'Awdurdodau Contractio Cymru' (ACCau) - yr awdurdodau contractio yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i'r Bil (cyfeirir atynt fel "*devolved Welsh authorities*" yn y Bil ei hun) ac y mae'r pwerau a'r dyletswyddau perthnasol a roddwyd i Weinidogion Cymru o dan y Bil yn gymwys iddynt.

Y diweddaraf ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf

10. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) ar 9 Mehefin, yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd gerbron Senedd y DU ar 11 Mai.
11. Cadarnhaodd y Memorandwm, er fy mod yn fodlon dechrau'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn Senedd Cymru, fod nifer o faterion allweddol oedd yn fy mhoeni a bod angen eu datrys cyn y gallwn ystyried argymell rhoi cydsyniad iddo. Ceir crynodeb o'r materion hyn isod:
 - **Y pŵer i ychwanegu cytundebau rhyngwladol.** Fel a nodwyd yn y Memorandwm, mae'r pŵer i ychwanegu cytundebau rhyngwladol wedi'i gynnwys fel pŵer cydamserol. Mae fy swyddogion i a swyddogion Swyddfa'r Cabinet wrthi'n trafod y mater hwn.
 - Nodir yn y Memorandwm fy mod yn gobeithio diwygio'r **diffiniad o ACCau**, hynny er mwyn sicrhau bod y cymalau'n gweithio'n decach o ran rhai caffaeliadau trawsffiniol. Mae fy swyddogion i a swyddogion Swyddfa'r Cabinet wrthi'n trafod y mater hwn.

- **Pwerau Cychwyn.** Fel a nodwyd yn y Memorandwm, mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn darparu mai Gweinidogion y Goron yn unig fydd â'r pŵer hwn. Mae fy swyddogion i a swyddogion Swyddfa'r Cabinet wrthi'n trafod y mater hwn.
- **Pwerau Canlyniadol.** Fel a nodwyd yn y Memorandwm, mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn darparu ar gyfer pwerau cydamserol heb ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru pan fydd Gweinidogion Llywodraeth y DU yn arfer y pŵer hwn mewn perthynas â maes datganoledig. Mae fy swyddogion i a swyddogion Swyddfa'r Cabinet wrthi'n trafod y mater hwn.
- **Pŵer datgymhwyso ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd.** Yn wreiddiol, ceisiwyd diwygio'r Bil cyn ei gyflwyno i roi pŵer datgymhwyso i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cyfateb i bŵer Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r newidiadau ar gyfer caffael gwasanaethau gofal iechyd yn Lloegr o dan Ddeddf Iechyd a Gofal 2022. Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu ers hynny beidio â cheisio cynnwys y pŵer hwn yn y Bil ond eu bod yn ystyried opsiynau amrywiol a all gynnwys cymryd y pwerau sydd eu hangen trwy ddeddfwriaeth Senedd Cymru, am ei fod yn faes datganoledig.
- **Dyletswydd i ystyried Datganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS) a'i gorfodi trwy achos sifil.** Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliant ar 27 Mehefin fydd yn sicrhau na fydd modd gorfodi ACC trwy achos sifil i ymgymryd â'i ddyletswydd i ystyried y WPPS. Mae hyn bellach yn adlewyrchu safbwynt polisi Llywodraeth Cymru.

12. Ar 27 Mehefin, cyflwynodd Llywodraeth y DU 320 o welliannau mewn perthynas â'r Bil, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Mae'r gwelliannau hyn yn cael eu hystyried yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi a ddechreuodd ar 4 Gorffennaf ac a fydd yn para tan 18 Gorffennaf.

13. Mae gwelliannau Llywodraeth y DU a gyflwynwyd yn cynnwys nifer o welliannau y gwnaeth Llywodraeth Cymru gynnig eu cyflwyno.

Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'r Bil ar gyfer eu hystyried yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi y mae angen cydsyniad arnynt

14. Mae'r gwelliannau canlynol i'r Bil a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer eu hystyried yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi o fewn cymhwysedd Deddfwriaethol Senedd Cymru:

14.1 Rhan 1 – Prif Ddiffiniadau

- 14.1.1 Mae cymal 1 newydd (Procurement and covered procurement) yn gymal newydd sy'n cymryd lle'r diffiniadau o Caffael a Chaffael Sicredig (*covered procurement*) mewn sawl lle yn y Bil. Mae'r gwelliannau'n diffinio'n gliriach beth mae'r termau "Caffael" a "Chaffael Sicredig" yn eu golygu. Mae'r gwelliant hefyd yn cynnwys diffiniad o "Awdurdod Caffael Canolog".
- 14.1.2 Mae cymal 1 newydd yn cynnwys diffiniadau a ddefnyddir ac sy'n berthnasol wrth ddehongli a chymhwyso cymalau dilynol y Bil, y mae nifer ohonynt yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29. Felly, mae angen cydsyniad ar gyfer y cymal 1 newydd i'r graddau y caiff y diffiniadau yn y cymal hwn eu defnyddio yng nghymalau'r Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.
- 14.1.3 Mae'r gwelliannau i gymal 5 (Utilities Contracts) a chymal 8 (Light Touch Contracts) yn rhai mân ac yn rhoi eglurder ar gyfer diffinio'r mathau hyn o gontractau.
- 14.1.4 Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau yng nghymalau 5 ac 8. Mae'r darpariaethau hyn yn neilltuo swyddogaethau perthnasol i awdurdodau contractio sy'n awdurdodau datganoledig yng Nghymru.

14.2 Rhan 2 – Egwyddorion ac Amcanion

- 14.2.1 Mae'r gwelliannau i gymal 10 (Procurement only in accordance with this Act), cymal 11 (Procurement Objectives) a chymal 13 (The Wales procurement policy statement) yn rhoi mwy o eglurder.
- 14.2.2 Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau yng nghymalau 10,11 ac 13. Mae'r darpariaethau hyn yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac felly maent yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS 29.

Rhan 3 – Dyfarnu Contractau Cyhoeddus a Gweithdrefnau

Pennod 1 – Camau Cychwynnol

- 14.3.1 Mae'r gwelliannau i gymal 15 (Preliminary market engagement) yn rhoi mwy o eglurder.
- 14.3.2 Effaith y gwelliant i gymal 16 (Preliminary market engagement notices) yw rhoi dyletswydd ar ACau sy'n gwneud gwaith ymgysylltu cychwynnol â'r farchnad i gyhoeddi hysbysiad o'r ymgysylltu cychwynnol hwn â'r farchnad cyn cyhoeddi'r hysbysiad tendro. Fodd bynnag, pe na bai'r AC yn cyhoeddi hysbysiad o ymgysylltu cychwynnol â'r farchnad, byddai'n rhaid iddo roi'r rheswm pam yn yr hysbysiad tendro.
- 14.3.3 Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau yng nghymalau 15 ac 16. Mae'r darpariaethau hyn yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac felly maent yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

Pennod 2 – Dyfarnu Cystadleuol

- 14.3.4 Mae'r gwelliannau i gymalau 19, 20, 22, 23, 25 i 29, 31 i 33, a 39 yn rhai mân a byddant yn gwneud y camalau'n haws eu darllen.
- 14.3.5 Mae'r gwelliant yn newid y gair 'must' yng nghymal 18 (Award of public contracts following a competitive procedure) i 'may'. Bydd hynny'n rhoi hyblygrwydd i ACau allu bod yn bragmatig, yn enwedig os bydd tor-amod mor fach fel na fyddai'n golygu anfantais i unrhyw dendr. O safbwynt dileu cyfeiriadau at "materially", bernir bod hyn yn dderbyniol gan fod tor amod yn dor amod, ni waeth beth yw ei effaith. Mae pob gwelliant arall yn fân ac yn rhoi eglurder
- 14.3.6 Mae'r gwelliannau a gynigir i gymal 24 (Technical Specifications) gan fwyaf yn rhai mân ac yn rhoi eglurder. Mae'r testun ychwanegol yn is-adran (A1) yn ehangu cwmpas y cymal ac yn esbonio'r hyn y mae'r adran yn gymwys iddo. Mae cymal 24 wedi'i symud i fod ar ôl cymal 53 (General provision about award and procedures).

14.3.7 Mae gwelliant i gymal 30 (Excluding suppliers for improper behaviour) yn deillio o'r diffiniad diwygiedig o "gaffael" yn y cymal 1 newydd. Bwriad y geiriad newydd yng nghymal 30 yw ei gwneud yn glir mai dim ond yn ystod y camau cyn tendro, tendro a dyfarnu contractau y bydd y gwaharddiad yn digwydd.

14.3.8 Mae'r is-adrannau sydd wedi'u hychwanegu at gymal 34 (Competitive award by reference to dynamic markets) yn rhoi eglurder ychwanegol ynghylch marchnadoedd deinamig. Mae'r holl welliannau eraill i'r cymal hwn yn fân ac yn rhoi eglurder.

14.3.9 Ar y cyfan, mae'r gwelliannau a gynigir i gymal 35 (Dynamic markets: establishment) yn fân ac yn rhoi eglurder. Mae is-adran wedi'i hychwanegu, sy'n diffinio yr hyn a olygir wrth "farchnad ddeinamig cyfleustodau".

14.3.10 Mae'r is-adrannau 1A, 1B ac 1C sydd wedi'u hychwanegu at gymal 36 (Dynamic markets: membership) yn rhoi eglurder ychwanegol o ran aelodau marchnadoedd deinamig.

14.3.11 Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau yng nghymalau 18 i 20, cymalau 22 i 36 a chymal 39. Mae'r darpariaethau hyn yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac felly maent yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

Pennod 3 – Dyfarniad Uniongyrchol

14.3.12 Mae'r gwelliant i gymal 42 (Switching to direct award) yn rhoi mwy o eglurder.

14.3.13 Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau yng nghymal 42. Mae cymal 42 yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac y mae felly yn "ddarpariaeth berthnasol" at ddibenion RhS29.

Pennod 4 – Dyfarnu o dan Fframweithiau

14.3.14 Mae'r is-adrannau a gynigir (3A i 3H) fydd yn cael eu cynnwys yng nghymal 44 (Frameworks) yn ei gwneud yn glir y dylai amodau cyfranogi fod yn ffordd gymesur o sicrhau bod gan gyflenwyr y gallu cyfreithiol, technegol ac ariannol i gyflawni'r contract.

14.3.15 Mae'r gwelliannau a gynigir i gymalau 45 (Frameworks: maximum term) a 46 (Frameworks: implied terms) yn rhoi mwy o eglurder.

14.3.16 Mae ychwanegu is-adran 2A at gymal 47 (Open Frameworks) yn ei gwneud yn glir, os bydd proses neilltuo contract i gyflenwr sy'n rhan o gytundeb fframwaith yn dechrau cyn y dyddiad y daw'r fframwaith i ben, ond bod y contract yn cael ei ddyfarnu i gyflenwr y fframwaith wedi i'r fframwaith ddod i ben, yna gall AC barhau i ddyfarnu'r contract hwnnw er bod y fframwaith wedi dod i ben, hynny am i'r broses neilltuo contract ddechrau cyn y dyddiad pan ddaeth y fframwaith i ben.

14.3.17 Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau yng nghymalau 44 i 47. Mae darpariaethau hyn yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac felly maent yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

Pennod 5 – Ar ôl dyfarnu, cyfnodau segur a hysbysiadau

14.3.18 Mae'r gwelliannau a gynigir i gymal 48 (Contract award notices and assessment summaries), cymal 49 (Standstill periods on the award of contracts) a chymal 51 (Contract details notices and publication of contracts) yn rhoi mwy o eglurder.

14.3.19 Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau yng nghymalau 48, 49 a 51. Mae darpariaethau hyn yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac felly maent yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

Pennod 6 – Darpariaeth Gyffredinol ynghylch dyfarnu a gweithdrefnau

14.3.20 Diben y mân newid i'r geiriad yng nghymal 52 (Time limits) yw sicrhau cysondeb drwy'r Bil cyfan. Ceir gwelliant mân hefyd i gynnwys gwybodaeth am y cyfnod amser lleiaf ar gyfer marchnadoedd deinamig, er eglurder.

14.3.21 Mae'r gwelliannau i gymal 54 (Meaning of excluded and excludable supplier) yn adlewyrchu newidiadau i'r derminoleg a wnaed yn rhannau eraill y Bil.

14.3.22 Mae'r gwelliannau i gymal 55 (Considering whether a supplier is excluded or excludable) yn rhoi mwy o eglurder.

- 14.3.23 Effaith y gwelliant yng nghymal 56 (Notification of exclusion of supplier) yw bod yn rhaid i ACau hysbysu cyflenwyr am waharddiad os ydynt wedi gwrthod cais i ymuno â marchnad ddeinamig, neu wedi tynnu cyflenwr o'r rhestr aelodau, am fod y cyflenwr yn gyflenwr sydd wedi'i eithrio neu'n gyflenwr y gellir ei eithrio. Mae'r gwelliant hefyd yn diweddarau rhai diffiniadau.
- 14.3.24 Mae mân newid i'r geiriad yng nghymal 59 (Debarment list) yn adlewyrchu sut y dylid cyfeirio at weinyddiaeth Gogledd Iwerddon at ddibenion y cymal hwn.
- 14.3.25 Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau yng nghymal 52, cymalau 54 i 56 a chymal 59.
- 14.3.26 Mae cymalau 52, 54, 55 a 56 yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac mae cymal 59 yn neilltuo swyddogaethau i Weinidog y Goron y gellir eu harfer mewn perthynas ag ADCau.
- 14.3.27 Mae'r darpariaethau hyn felly yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

14.4 **Rhan 4 – Rheoli Contractau Cyhoeddus**

- 14.4.1 Mae'r gwelliant i gymal 63 (Implied payment terms in public contracts) yn egluro yr ystyrir bod AC ond wedi derbyn anfoneb os caiff yr anfoneb ei danfon i'r cyfeiriad a nodir gan yr AC yn y contract. Bydd hyn yn helpu i sicrhau mai'r bobl/adrannau cywir o fewn ACau sy'n derbyn yr anfoneb fel y gellir trefnu taliad prydlon.
- 14.4.2 Mae'r gwelliannau i gymal 64 (Payments compliance notices) yn datgymhwyso gofynion cymal 64 i Awdurdodau Gogledd Iwerddon a Drosoglwyddwyd. O'r herwydd, mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan y cymal hwn wedi'i gyfyngu i Weinidogion Cymru ac i Weinidog y Goron. Nid yw hyn yn cael unrhyw effaith ar ACCau na phwerau Gweinidogion Cymru.
- 14.4.3 Mae'r gwelliant i gymal 65 (Information about payments under public contracts) yn egluro bod un o Weinidogion y Goron neu Weinidogion Cymru yn yr achos hwn, yn 'awdurdod priodol'. Mae'r gwelliant yn egluro nad yw'r adran yn gymwys i gontractau cyhoeddus a ddyfernir gan awdurdodau Gogledd Iwerddon (oni bai ei fod yn drefniant caffael Cymreig sydd wedi'i gadw yn ôl

neu ei ddatganoli neu ei fod yn cael ei ddyfarnu fel rhan o gaffaeliad o dan drefniant caffael Gogledd Iwerddon a drosglwyddwyd).

- 14.4.4 Mae'r gwelliant i gymalau 66 (Assessment of contract performance), 68 (Implied payment terms in sub-contracts), a 69 (Modifying a public contract), yn rhoi mwy o eglurder.
- 14.4.5 Mae Cymal 70 (Contract change notices and publication of modifications) wedi cael ei newid fel bod y wybodaeth am gyhoeddi newidiadau wedi'i symud i gymal newydd ar ôl cymal 71. Mae gwelliant wedi'i wneud i gymal 70 sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r adran hon er mwyn newid y trothwyon canrannol (sy'n penderfynu pryd y mae angen cyhoeddi Hysbysiad Newid Contract). Mae'r rhan fwyaf o'r gwelliannau eraill yn rhai drafftio mân ac eithrio testun ychwanegol sy'n egluro bod angen cyhoeddi Hysbysiad Newid Contract os yw'r newid yn newid a ganiateir ("novation" neu aseinio neu ailstrwythuro corfforaethol).
- 14.4.6 Mae'r gwelliant i gymal 71 (Voluntary standstill period on the modification of contracts) yn egluro bod unrhyw gyfnod segur y darperir ar ei gyfer mewn hysbysiad newid contract yn wirfoddol. Mae'r gwelliant hefyd yn cadarnhau na chaiff cyfnod segur gwirfoddol fod yn llai nag wyth diwrnod gwaith, gan ddechrau gyda dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad newid contract.
- 14.4.7 Mae cymal newydd ar ôl cymal 71 (Publication of Modifications) wedi'i symud o gymal 70. Mae'n egluro bod yn rhaid cyhoeddi copi o'r contract fel y'i newidiwyd neu'r newid ac nad yw hyn yn ofyn ar ACCau. Mae pob mân welliant arall yn rhoi eglurder.
- 14.4.8 Mae'r gwelliant i gymal 72 (Implied right to terminate public contracts) yn rhoi manylion y camau y dylai AC eu cymryd i derfynu contract lle daw'n amlwg bod y cyflenwr yn defnyddio is-gontractwr a fyddai'n cael ei ystyried yn gyflenwr sydd wedi'i eithrio neu y gellir ei eithrio.
- 14.4.9 At hynny, mae cymal newydd wedi'i gynnwys ar ôl cymal 72 (Terminating public contracts: national security). Effaith hyn yw rhoi dyletswydd ar ACau i hysbysu Gweinidog y Goron os defnyddir y rheswm 'bygythiad i ddiogelwch y wlad' wrth ystyried terfynu contract. Bydd angen i Weinidog y Goron gytuno bod y rheswm wedi'i gyfiawnhau cyn y gellir terfynu'r contract.

Penderfyniad i'r Gweinidog y Goron yw hwn gan ei fod yn ymwneud â diogelwch cenedlaethol sy'n fater a gadwyd yn ôl.

14.4.10 Effaith y gwelliant i gymal 73 (Contract termination notices) yw dileu'r ddyletswydd ar gyfleustodau preifat i gyhoeddi hysbysiad terfynu contract. Mae'r gwelliant yn cynnig bod 'contractau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau dewis y defnyddwyr' o dan gymal 40 (ac fel y nodir yn ei atodlen 5 gysylltiedig) yn cael eu dileu o ofynion yr adran hon.

14.4.11 Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau yng nghymalau 63 i 73. Mae darpariaethau hyn yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac felly maent yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

14.4.12 Mae angen cydsyniad hefyd ar gyfer y cymal newydd fydd yn cael ei gynnwys ar ôl cymal 72 (Terminating public contracts: national security). Mae'r cymal hwn yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac y mae felly yn "ddarpariaeth berthnasol" at ddibenion RhS29.

14.5 Rhan 5 – Gwrthdaro Buddiannau

14.5.1 Mae'r gwelliannau i gymal 74 (Conflicts of interest: duty to identify), cymal 75 (Conflicts of interest: duty to mitigate), a chymal 76 (Conflicts assessments) yn cysoni'r iaith â gweddill y Bil ac nid ydynt yn newid ystyr y cymalau.

14.5.2 Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau yng nghymalau 74 i 76. Mae'r darpariaethau hyn yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac felly maent yn "ddarpariaethau berthnasol" at ddibenion RhS29.

14.6 Rhan 6 – Contractau o dan y trothwy

14.6.1 Mae'r gwelliannau i gymal 77 (Regulated below-threshold contracts) a chymal 80 (Regulated below-threshold contracts: implied payment terms) yn rhoi mwy o eglurder ac nid ydynt yn newid ystyr y cymalau.

14.6.2 Mae'r gwelliant i gymal 79 (Regulated below-threshold contracts: notices) yn esbonio y caiff Gweinidogion y Goron a Gweinidogion Cymru ddiwygio'r adran hon er mwyn newid y trothwyon ariannol ar gyfer yr adran hon. Effaith newid y geiriad yw tynnu Gogledd Iwerddon o'r pŵer hwn.

14.6.3 Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau yng nghymalau 77, 79 ac 80. Mae'r darpariaethau hyn yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac felly maent yn "ddarpariaethau berthnasol" at ddibenion RhS29.

14.7 Rhan 7 – Cadw at Ymrwymadau Rhyngwladol

14.7.1 Mae'r gwelliannau i Gymal 81 (Treaty state suppliers) a Chymal 82 (Treaty state suppliers: non-discrimination) yn rhoi mwy o eglurder ac yn cysoni'r iaith â gweddill y Bil.

14.7.2 Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng nghymal 81 ac 82.

14.7.3 Mae cymal 81 yn rhoi pŵer i "awdurdod priodol" (sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru) wneud rheoliadau i newid y rhestr o gytundebau rhyngwladol yn Atodlen 9. Gellir arfer y pwerau mewn perthynas ag ADCau. Mae cymal 82 yn neilltuo swyddogaethau i ADCau.

14.7.4 Mae'r darpariaethau hyn felly yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29

14.8 Rhan 8 – Gwybodaeth a Hysbysiadau: Darpariaeth Gyffredinol

14.8.1 Mae'r gwelliant i gymal 84 (Pipeline notices) yn esbonio bod 'awdurdod priodol' yn cyfeirio at Weinidog y Goron, Gweinidogion Cymru ac Awdurdod Gogledd Iwerddon a drosglwyddwyd.

14.8.2 Mae'r gwelliant i gymal 87 (Electronic communications) yn rhoi mwy o eglurder.

14.8.3 Mae cymal newydd wedi'i gynnwys ar ôl cymal 88 (Data protection), sy'n rhoi sicrwydd nad yw'r ddeddfwriaeth hon yn tramgwyddo'r Ddeddf Diogelu Data mewn unrhyw ffordd.

14.8.4 Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau yng nghymalau 84 ac 87. Mae'r darpariaethau hyn yn neilltuo swyddogaethau i ADCau ac felly maent yn "ddarpariaethau berthnasol" at ddibenion RhS29.

14.8.5 Mae angen cydsyniad hefyd ar gyfer y cymal newydd (Data protection) fydd yn cael ei fewnosod ar ôl cymal 88. Mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth sy'n atodol i'r prif ddarpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer ac y mae felly yn "ddarpariaeth berthnasol" at ddibenion RhS29.

14.9 **Rhan 9 – Rhwymedïau am dorri dyletswydd statudol**

14.9.1 Effaith y gwelliannau i gymal 89 (Duties under this Act enforceable in civil proceedings) yw sicrhau bod y Bil yn cyd-fynd â safbwynt polisi Llywodraeth Cymru na fydd modd gorfodi ACC trwy achos sifil i ymgymryd â'i ddyletswydd i ystyried y WPPS.

14.9.2 Mae'r gwelliannau i gymal 90 (Automatic suspension of the entry into or modification of contracts) a 91 (Interim remedies) yn welliannau drafftio yn bennaf sy'n rhoi mwy o eglurder.

14.9.3 Mae'r gwelliant i gymal 95 (Time limits on claims) yn egluro'r terfynau amser gwahanol ar hawliadau sy'n dibynnu a yw'n achos penodol sydd wedi'i neilltuo neu'n fath arall o achos.

14.9.4 Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng nghymalau 89 i 91 a chymal 95. Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â gorfodi dyletswydd ADC i gydymffurfio â Rhannau 1 i 5, 7 ac 8 ac felly maent yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

14.10 **Rhan 10 – Goruchwyllo Caffael**

14.10.1 Mae'r gwelliannau i gymal 96 (Procurement investigations) a chymal 98 (Guidance following procurement investigations) yn rhai mân ac yn rhoi eglurder o ran terminoleg a'r hyn y mae'r cymal yn ymdrin ag ef.

14.10.2 Mae angen y cydsyniad ar gyfer y darpariaethau yng nghymalau 96 a 98. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ADCau ac yn neilltuo swyddogaethau i'r ADCau. Maent felly yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

14.11 **Rhan 11 – Awdurdodau Perthnasol a Chaffael Trawsffiniol**

14.11.1 Mae gwelliannau i gymal 99 (Welsh Ministers: restrictions on the exercise of powers), cymal 101 (Ministers of the Crown:

restrictions on exercise of powers), cymal 102 (Definitions relating to procurement arrangements) a chymal 103 (powers relating to procurement arrangements) sy'n rhoi mwy o eglurder ac yn cysoni'r derminoleg ynghylch ystyr caffael er mwyn sicrhau cysondeb drwy'r Bil cyfan.

14.11.2 Mae gwelliannau hefyd i gymal 101 sy'n cael yr effaith o wneud y pŵer i gyhoeddi canllawiau o dan gymal 98 (guidance following procurement investigation), sef pŵer y gellid ei arfer fel pŵer cydredol plws h.y. gan Weinidogion Cymru yn unig neu gan Lywodraeth y DU gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru mewn perthynas â materion datganoledig.

14.11.3 Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng nghymalau 99, 101, 102 a 103.

14.11.4 Mae cymal 99 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag arfer pwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag ADCau.

14.11.5 Mae cymal 101 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag arfer pwerau un o Weinidogion y Goron mewn perthynas ag ADCau.

14.11.6 Mae cymal 102 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â "threfniadau caffael datganoledig Cymru" (fel y'u diffinnir yng nghymal 102(2)).

14.11.7 Mae cymal 103 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag arfer pwerau un o Weinidogion y Goron mewn perthynas â dyfarnu contractau o dan drefniadau caffael datganoledig Cymru.

14.11.8 Mae'r rhain felly yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

14.12 **Rhan 13 – Cyffredinol**

14.12.1 Mae'r gwelliant i gymal 111 (Interpretation) yn rhoi mwy o eglurder.

14.12.2 Effaith y gwelliant i gymal 112 (Index of defined expressions) yw sicrhau bod cyfeiriadau at rannau eraill y Bil yn y cymal hwn yn gywir.

14.12.3 Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau yng nghymalau 111 i 112.

14.12.4 Mae cymalau 111 a 112 yn cynnwys darpariaeth sy'n atodol i'r prif ddarpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad arnynt.

14.12.5 Mae'r rhain felly yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

14.13 **Atodlenni**

14.13.1 Effaith y gwelliant i esemptiad y trefniadau fertigol (contract rhwng AC(au) a pherson(au) rheoledig) yn Atodlen 2 (Contractau esempt) yw egluro bod contractau a ddyfernir gan un neu fwy o ACau sydd â rheolaeth ar y cyd dros berson yn cael eu caniatáu. Eglurir y diffiniad o'r hyn a olygir wrth 'rheolaeth' pan fydd ACau yn gweithredu ar y cyd. Mae'r gwelliant bellach yn nodi nad yw cyfeiriadau at AC yn cynnwys cyfeiriadau at ymgymeriad cyhoeddus neu gyfleustod preifat. Mae hyn hefyd wedi'i gynnwys yn y gwelliant i drefniadau Llorweddol (contract rhwng ACau).

14.13.2 Mae'r gwelliant i'r esemptiad Cyflogaeth yn egluro pa Ddeddfau sy'n gymwys i gontractau a ddyfernir gan AC Gogledd Iwerddon a drosglwyddwyd ac i gontractau a ddyfarnwyd gan bob AC arall.

14.13.3 Mae'r gwelliant i Atodlen 5 (Direct award justifications) yn adlewyrchu'r ffaith bod cymal 41 yn rhoi pŵer i un o Weinidogion y Goron wneud rheoliadau, os ystyrir bod hynny'n "angenrheidiol", i ddarparu ar gyfer dyfarnu contractau cyhoeddus penodedig o dan adran 40 fel pe bai cyfiawnhad dyfarniad uniongyrchol yn gymwys (mae "angenrheidiol" yn golygu angenrheidiol er mwyn diogelu bywyd neu iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion neu i ddiogelu trefn neu ddiogelwch cyhoeddus). Felly, mae'r gwelliant yn adlewyrchu'r ffaith bod y Bil eisoes yn darparu ar gyfer dyfarniad uniongyrchol o dan yr amgylchiadau hyn.

14.13.4 Gwnaed y gwelliannau i Atodlen 6 (Mandatory Exclusion grounds) i roi mwy o eglurder ac i fynd i'r afael â rhai mân gyd-destunau teipograffyddol a/neu ddeddfwriaethol sy'n dod o fewn y rhesymau dros waharddiad gorfodol. Mae'r gwelliannau rhoi rhagor o ddiffiniadau er mwyn rhoi mwy o eglurder i is-gymal 38 ynghylch 'trefniadau treth hysbysadwy'.

14.13.5 Mae'r gwelliannau i Gymal 7 (Discretionary exclusion grounds) ac Atodlen 8 (Permitted contract modifications) yn rhai mân ac yn rhoi mwy o eglurder.

14.13.6 Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau yng Nghymalau 2, 5, 6, 7 ac 8.

14.13.7 Mae'r atodlenni'n cynnwys darpariaethau sy'n atodol i'r prif ddarpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad arnynt.

14.13.8 Mae'r atodlenni felly yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

15. Mae'r gwelliannau'n ymwneud â darpariaethau a drafodwyd yn y Memorandwm a osodwyd ar 9 Mehefin, a barn Llywodraeth y DU oedd bod y Bil yn defnyddio'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Gweler paragraffau 110 i 116 o'r Memorandwm a osodwyd ar 9 Mehefin am ragor o wybodaeth.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Caffael

16. Gan fod y gwelliannau a nodir yn y Memorandwm hwn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a bod pob un yn ymwneud â'r darpariaethau a geir yn fy Memorandwm a osodwyd ar 9 Mehefin, mae'r rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn yn y Bil, fel y'u disgrifir ym mharagraffau 117 a 118 o'r Memorandwm hwnnw, yn parhau'n gymwys.

Goblygiadau ariannol

17. Nodais y goblygiadau ariannol posibl sy'n gysylltiedig â diwygio'r drefn caffael cyhoeddus yng Nghymru y bydd Llywodraeth Cymru a'r Sector Cyhoeddus ehangach yng Nghymru yn debygol o'u hysgwyddo yn fy Memorandwm gwreiddiol a osodwyd ar 9 Mehefin.

18. Ni fydd y gwelliannau a gynigir yn golygu unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru na'r Sector Cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

Casgliad

19. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddod â'r

darpariaethau hyn i rym. Mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos gyda swyddogion yn Swyddfa'r Cabinet i sicrhau bod amcanion polisi Cymru wedi'u cynnwys ac rwyf o'r farn y byddai'r darpariaethau hyn yn darparu cyfundrefn gaffael symlach a thryloyw yng Nghymru.

20. Er fy mod o'r farn bod y gwelliannau a gynigir yn rhai rhesymol, yn yr ystyr ei bod yn ymddangos eu bod yn gwneud gwelliannau i'r Bil fel y'i cyflwynwyd ac nad ydynt yn creu unrhyw bryderon newydd i mi, rwyf hefyd o'r farn nad yw'n briodol argymell cydsyniad nes bod y materion sy'n weddill fel y'u hamlinellir ym mharagraff 11 uchod wedi'u datrys. Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddatrys y materion hyn.

Rebecca Evans AS
Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
11 Gorffennaf 2022